
Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd

Haf 2019

ADRODDIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 17 Medi 2019

Cynnwys

Adran

1. Golwg Gyffredinol	1
2. Y Prif Ganfyddiadau	3
3. Dangosfyrddau	9
4. Gwasanaethau data 3G cenhedlaeth hŷn – dangosfyrddau	19

1. Golwg Gyffredinol

Dyma'r ail ddiweddariad interim i'n hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol diwethaf (Rhagfyr 2018), ar sail y ddarpariaeth ffonau symudol a band eang sefydlog a oedd ar gael ym Mai 2019. Mae'r diweddariad hwn yn olrhain cynnydd darparwyr cyfathrebiadau wrth iddynt gynyddu argaeledd gwasanaethau cyfathrebu i bobl a busnesau. Mae'n rhan allweddol o'n gwaith i helpu i sicrhau bod pobl ar draws y DU yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt.

Canlyniadau allweddol o'r diweddariad hwn

- Mae nifer yr eiddo sy'n gallu cael band eang cyflym iawn (sef cyflymderau lawrlwytho sy'n 30Mbit yr eiliad ac uwch) yn fwy na 28 miliwn erbyn hyn; mae cyfran y DU sydd â mynediad at gysylltiadau cyflym iawn yn dal yn weddol sefydlog, sef 95% o adeiladau'r DU, gyda union nifer yr eiddo yn parhau i gynyddu.
- Mae argaeledd band eang gwibgyswllt (>300Mbit/yr eiliad)¹ yn weddol sefydlog hefyd, er bod cyfradd y twf fymryn yn uwch, gyda'r ddarpariaeth wedi codi o 53% i 54%.
- Mae argaeledd band eang ffibr llawn wedi cynyddu hefyd, o 7% i 8%, gyda mymryn llai na 2.5 miliwn o eiddo yn cael hynny erbyn hyn. Mae hyn yn gynyddu o ychydig o dan 400,000 yn y pedwar mis ers y diweddariad blaenorol, gan fod ffeibr llawn yn cael ei gyflwyno'n fasnachol yn gyflymach nag erioed yn y DU.
- Mae cyfran yr eiddo sydd heb fynediad at gysylltiad band eang boddhaol (sef o leiaf 10Mbit/yr eiliad) yn aros yn 2% ar sail y ddarpariaeth rhwydwaith sefydlog gyffredol. Rydym yn disgwyl y bydd y ffigwr hwn yn gostwng ymhellach pan fyddwn ni'n cwblhau ein gwaith i gynnwys darpariaeth yr holl rwydweithiau sefydlog mawr² yn ein hadroddiadau.
- Nid yw darpariaeth symudol ar draws yr holl wledydd (yn ôl adeiladau ac ehangdir) wedi newid fawr ddim ers ein diweddariad yn ystod y gwanwyn ym mis Mai, wrth i'r darparwyr agosáu at ddiwedd y cylch presennol o gyflwyno.
- Bydd yr adroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol llawn yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019, a bydd yn cynnwys gwybodaeth ddiweddaredig am ddarpariaeth ffonau symudol a band eang - gan gynnwys opsiynau di-wifr sefydlog, a data ar gylich cychwynnol y gwaith o gyflwyno 5G gan gwmnïau ffonau symudol. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys data a dadansoddiadau o berfformiad, galluedd a gwytnwch rhwydweithiau, ac yn ôl yr arfer bydd adroddiadau penodol hefyd ar gyfer pob gwlad yn y DU.


Mae adroddiadau Cysylltu'r Gwledydd Ofcom yn rhan o'n gwaith o fonitro i ba raddau mae'r buddsoddiad mewn rhwydweithiau band eang a symudol yn bodloni'r galw cymdeithasol ac

¹ Gall band eang gwibgyswllt gael ei ddarparu drwy amrywiaeth o dechnolegau, fel G.Fast, DOCSIS (Ceb1) a ffeibr llawn.

² Mae nifer o ddarparwyr arbenigol yn defnyddio technoleg radio i ddarparu gwasanaethau band eang i eiddo, heb ddefnyddio unrhyw gysylltiad copr confensiynol neu "gysylltiad â gwifr" ffeibr. Yn gynyddol, mae'r prif rwydweithiau ffonau symudol yn cynnig gwasanaethau "mynediad di-wifr sefydlog" o'u rhwydweithiau ffonau symudol.

economaidd o ran cyfathrebiadau. Rydym yn olrhain cynnydd o ran argaeledd gwasanaethau symudol a band eang sefydlog cyflym iawn a gwibgyswllt, yn ogystal â gwasanaethau symudol 4G.

Mae Ofcom yn casglu ac yn cyhoeddi data drwy gydol y flwyddyn. Dyma'r cerrig milltir nodweddiadol ar gyfer casglu a chyhoeddi:



Mae dilyn hysbys darpariaeth rhwydweithiau cyfathrebiadau yn bwysig i Ofcom allu deall lle mae bylchau cysylltedd yn dal i fodoli i ddefnyddwyr, ac i ganfod lle mae angen gwneud mwy fel bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

Mae'r data o'r diweddariad hwn wedi cael ei ddefnyddio hefyd i adnewyddu'r wefan a'r ap gwirio [darpariaeth sydd ar gael yn Gymraeg](#). Mae'r rhain yn galluogi pobl i wirio sut wasanaeth a darpariaeth sydd ar gael yn y manau lle maen nhw'n byw, yn gweithio ac yn teithio. Mae'r dyddiadau yn y ffigurau a'r tablau yn yr adroddiad hwn yn dod o ddata a gofnodwyd ym mis Mai 2019.

2. Y Prif Ganfyddiadau

Band eang sefydlog

Mae nifer yr adeiladau yn y DU sy'n gallu derbyn band eang cyflym iawn wedi bod yn weddol sefydlog dros y 4 mis diwethaf, ac wedi aros oddeutu 96%. Mae argaeledd band eang cyflym iawn wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond wrth i'r cynlluniau ymyrryd gwreiddiol a ariannwyd gan BDUK ddod i ben, mae'r cynnydd yn yr ardaloedd gwledig sydd heb gael mynediad at fand eang cyflym iawn eto yn debygol o barhau i arafu. Fodd bynnag, mae disgwyl i ymyriadau'r sector cyhoeddus, megis prosiect R100 Llywodraeth yr Alban, wrthdroi'r tueddiad hwn unwaith y bydd ar waith.

Mae band eang gwibgyswllt yn weddol sefydlog, gan gynyddu fymryn i 54% o adeiladau. Y diffiniad o fand eang gwibgyswllt yw cyflymderau lawrlwytho sy'n fwy na 300Mbit yr eiliad ac mae modd ei ddarparu drwy amrywiaeth o dechnolegau fel ffeibr llawn a G.Fast³, er yn y DU mae'n cael ei ddarparu'n bennaf drwy rwydwaith band eang cebl Virgin Media.

Mae argaeledd band eang ffeibr llawn yn y DU wedi cynyddu i ychydig llai na 2.5 miliwn o eiddo (sef oddeutu 8% o adeiladau). Dyma gynnydd o fwy na 1.1. miliwn o adeiladau yn y flwyddyn ddiwethaf, ac mae 400,000 ohonynt wedi digwydd ers ein diweddariad yn ystod y gwanwyn. Mae cystadleuaeth gynyddol yn y farchnad ffeibr llawn, gydag amrywiaeth o ddarparwyr ffeibr llawn mwy o faint a llai o faint yn cyflwyno rhwydweithiau mewn gwahanol rannau o'r wlad. Mae'r cynnydd yn yr argaeledd yn dangos bod y cylchoedd cyflwyno masnachol yn adeiladu ar y gyfradd gyflymaf erioed ar gyfer ffeibr llawn yn y DU.

Mae nifer yr adeiladau sy'n methu cael band eang boddhaol yn parhau i ostwng, ac ar hyn o bryd mae tua 578,000 o adeiladau, heb gynnwys Mynediad Di-wifr Sefydlog. Y diffiniad o fand eang boddhaol yw un sydd â chyflymder lawrlwytho sy'n 19Mbit yr eiliad o leiaf, a chyflymder uwchlwytho sy'n 1Mbit yr eiliad o leiaf. Bydd pobl sydd heb fynediad at wasanaeth boddhaol a fforddiadwy yn eu cartref neu eu busnes, ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, yn gallu gofyn am wasanaeth o'r fath dan y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol newydd ar gyfer band eang. Ym mis Mehefin 2019, fe wnaethom ni gyhoeddi ein datganiad yn dynodi BT a KCOM, yn eu trefn, yn Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer gweddill y DU a Hull. O'r 20 Mawrth 2020 ymlaen, bydd pobl yn gallu gwneud cais dan y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol perthnasol drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol.

Cefnogi buddsoddiad

Rydym yn rhannu uchelgais y Llywodraeth fod pobl ledled y DU yn gallu cael mynediad at ffeibr llawn dros y blynyddoedd nesaf - a hynny mewn cymunedau gwledig yn ogystal â threfi a dinasoedd. Rydym yn chwarae ein rhan drwy hybu cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau er mwyn cefnogi buddsoddiad sylweddol a hirdymor mewn ffeibr llawn - i roi band eang gwell a chyflymach i bobl, a

³ Technoleg Llinell Danysgrifio Ddigidol gyflym iawn sy'n cael ei defnyddio fel arfer mewn cabinetau stryd Ffeibr i'r Cwrw i ddarparu gwasanaethau Gwibgyswllt dros linellau copr.

chaniatáu i gwmnïau sy'n adeiladu'r rhwydweithiau hyn gael elw teg. Mae mwy o fanylion ein cynlluniau ar gael yn ein datganiad ar hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr.⁴

Rydym yn disgwyl i argaeledd ffeibr llawn barhau i dyfu dros y blynyddoedd nesaf, wrth i fesurau presennol o Ofcom a'r Llywodraeth barhau i gael effaith, wrth i fentrau newydd ddod i rym, ac wrth i gwmnïau adeiladu ar eu cylchoedd cyflwyno hyd yma.

Gall technolegau eraill ddarparu gwasanaethau sy'n cymharu â ffibr llawn

Mae technolegau eraill sydd hefyd ar gael yn gallu darparu'r cyflymderau sy'n gallu delio â Gigabit y mae ffeibr llawn yn eu cynnig, yn fwyaf amlwg y fersiwn nesaf o fand eang Cebel sy'n cael ei gyflwyno gan Virgin Media, DOCSIS3.1. Hefyd, nid yn unig y mae technoleg 5G yn cynnig y posibilrwydd o ddarparu gwell darpariaeth symudol, ond mae hefyd yn cynnig band eang "gwibgyswllt" mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig. Gallai hyn roi profiad tebyg i bobl o'r cyflymderau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan ffeibr llawn, ac a fydd, maes o law, yn gallu delio â Gigabit. Mae H3G eisoes wedi lansio gweithrediad cychwynnol mewn rhai rhannau o Lundain, mae Vodafone yn marchnata eu cynnyrch "Gigacube" wrth ddefnyddio eu 5G, ac mae disgwyl i EE wella'r harlwy presennol o ran Mynediad Di-wifr Sefydlog gyda 5G.

Gwallau yn y data am ddarpariaeth

Rydym wedi canfod bod data ffeibr llawn un darparwr cyfathrebiadau wedi cael ei or-bwysleisio ar gyfer rhai adeiladau, a hynny oherwydd eu bod wedi cam-ddehongli diffiniad Ofcom o argaeledd ffeibr llawn a sut mae'n berthnasol ar gyfer gwahanol arferion gosod.⁵ Mae'r effaith gyffredinol ar y prif ffigyrau yn y diweddariad hwn yn ddibwys, ond roedd yr argaeledd mewn nifer fach o fwrdeistrefi trefol wedi cael ei orbwysleisio.

Mae cywirdeb y data a gyflwynir yn fater difrifol iawn i ni, o ystyried pa mor bwysig yw hynny wrth lunio polisiau a rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch argaeledd gwasanaethau. Byddwn ni'n cyhoeddi ail-ddatganiadau o ddata diweddariad y gwanwyn (a gasglwyd ym mis Ionawr 2019) gyda chywiriadau i adlewyrchu hyn. Rydym yn parhau i weithio gyda phob darparwr i sicrhau bod yr argaeledd yn cael ei fesur a'i adrodd mewn ffordd gyson, ac rydym yn annog defnyddwyr a gwneuthurwyr polisiau i rannu unrhyw bryderon penodol am gywirdeb y data.


⁴ Datganiad: Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr – adolygiad o'r seilwaith ac o farchnadoedd cysylltedd busnes, 28 Mehefin 2019

<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/review-physical-infrastructure-and-business-connectivity-markets>

⁵ Dim ond os yw'r canlynol yn wir yr ydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn":

1. mae ffeibr yn cael ei ddefnyddio'n agos at yr adeilad, felly dim ond cysylltiad ffeibr pwrpasol i'r eiddo sydd ei angen i ddarparu cysylltedd ffeibr llawn (o'r dechrau i'r diwedd)
2. ni fyddai disgwyl i'r defnyddiwr ond talu'r ffi cysylltu a gyhoeddwyd ac a gytunwyd ymlaen llaw, petai un yn cael ei weithredu.

Ffigur 1: Darpariaeth gwasanaethau band eang sefydlog yn y DU ers mis Mai 2017



Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr, Mai 2017 – Mai 2019

Gwasanaethau symudol

Mae darpariaeth 4G (dan do ac yn yr awyr agored) wedi aros yn weddol sefydlog dros y 4 mis diwethaf. Nid yw 9% o ehangdir y DU yn cael darpariaeth 4G dda gan unrhyw weithredwr.

Rydym yn mesur darpariaeth ffonau symud mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad tebygol pobl sy'n defnyddio eu ffonau symudol. Dyma sut rydym yn diffinio darpariaeth dda i ffonau symudol:

- **Galwadau ffôn:** Dylai bron pob un galwad ffôn 90 eiliad o hyd gael ei chwblhau heb ymyrraeth.
- **Gwasanaethau 4G:** Gwell gwasanaethau data a llais, lle dylai bron pob cysylltiad ddarparu cyflymder o 2Mbit yr eiliad o leiaf a chysylltiad llais dibynadwy. Mae hyn yn ddigon cyflym i bori'r rhyngwrwd a gwyllo fideos symudol yn ddi-rwystr.

Rydym wedi defnyddio data torfol ⁶o ffonau defnyddwyr a phrofion gyrru i ganfod y lefelau signal sy'n ofynnol i gyrraedd targedau o leiaf 95% o'r amser. Rydym yn parhau i gynnal ein profion manwl ein hunain i wirio bod gweithredwyr ffonau symudol yn darparu'r lefelau signal maen nhw wedi'u rhagweld.

Mae'r ffordd rydych chi'n mesur darpariaeth yn bwysig, ond mae *lle* rydych chi'n mesur hynny yn bwysig hefyd. Er mwyn adlewyrchu'r manau lle mae pobl yn debygol o ddefnyddio eu ffôn symudol, rydym yn edrych ar y ddarpariaeth mewn tair ffordd:

⁶ Mae data torfol yn golygu defnyddio data gan lawer iawn o bobl ac, yn yr achos penodol hwn, eu ffonau symudol. Mae'r data hwn yn cael ei gasglu'n awtomatig ac ar gael i'w ddadansoddi.

- **Awyr agored:** Cyfran yr arwynebedd daearyddol lle gall rhywun ddefnyddio ei ffôn yn yr awyr agored. Mae'r mesuriad hwn yn ddefnyddiol ar gyfer asesu'r tebygolrwydd o ddefnyddio ffôn yn llwyddiannus yn yr awyr agored.
- **Dan do:** Cyfran yr eiddo lle gall rhywun ddefnyddio ei ffôn. Mae'r mesuriad hwn yn ddefnyddiol ar gyfer asesu'r tebygolrwydd o ddefnyddio ffôn yn llwyddiannus gartref neu yn y gwaith.
- **Ffyrdd:** Cyfran y rhwydwaith o ffyrdd A a B lle gall rhywun ddefnyddio ei ffôn wrth deithio mewn cerbyd.

Mentrau i wella darpariaeth

Fel ein rhaglen bolisi i annog gwasanaethau ffeibr llawn sy'n gallu delio â Gigabit yng nghyd-destun rhwydweithiau sefydlog, mae Ofcom yn gweithio gyda'r Llywodraeth a diwydiant i ganfod ffyrdd o ymestyn cwmmpas a galluogrwydd y rhwydweithiau ffonau symudol. Rydym yn sicrhau bod mwy o sbectrwm ar gael i gwmnïau, a hynny drwy brosesau arwerthiant confensiynol a thrwy'r dulliau arloesol i rannu sbectrwm a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar. Mae llawer o'r ffocws hwn ar gyfer technolegau 5G newydd, ond rydym hefyd yn chwarae rhan weithredol yn cefnogi'r gwaith o ehangu'r rhwydweithiau presennol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig.

5G


Er bod rhai cwmnïau ffonau symudol wedi dechrau cyflwyno gwasanaethau 5G, ni chafodd yr un ohonynt eu cyflwyno ym mis Mai, pryd casglwyd y data ar gyfer y diweddariad hwn. Byddwn ni'n casglu gwybodaeth am y cylchoedd cyflwyno hyn i'r adroddiad Cysylltu'r Gwledydd llawn y byddwn yn ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Rydym hefyd yn ystyried beth yw profiad o ansawdd da gyda'r dechnoleg newydd, fel bod ein hamcangyfrifon o'r ddarpariaeth yn parhau'n berthnasol i'r hyn mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl.

Gwallau yn y data am ddarpariaeth

Mae'r ffigurau ar gyfer darpariaeth 4G yn niweddariad y gwanwyn (gan ddefnyddio data o Ionawr 2019) wedi cael eu hailddatgan ar gyfer rhai ardaloedd o'r DU. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod un gweithredwr rhwydwaith symudol wedi mynd ati'n esgeulus i barhau i gywiro ffigurau a ddarparwyd i Ofcom, ar ôl cytuno bod angen iddynt fabwysiadu dull adrodd addasedig. Roedd hyn yn golygu eu bod wedi gwneud gormod o iawn am y broblem wreiddiol⁷. Arweiniodd hyn at adrodd gormod braidd am y ddarpariaeth, a chanfuwyd hynny a'i gywiro yn y fan yma. Mae'r effaith fwyaf arwyddocaol yn ymwneud â "mannau di-gyswllt" 4G sy'n cael eu dangos fel 9% o ehangdir Cymru, yn hytrach na'r 8% a oedd yn y diweddariad blaenorol.

⁷ Cafodd y mater gwreiddiol ei ganfod y llynedd, ac adroddwyd yn ei gylich yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd yn 2018.


Ffigur 2: Darpariaeth 4G ar gyfer gwasanaethau ffonau symudol yn y DU ers mis Mai 2017



Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata cwmnïau, Mehefin 2017 – Mai 2019 (wedi ailddatgan ym mis Medi 2018)

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer galwadau a negeseuon testun hefyd yn aros yn sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan 92% o eiddo'r Deyrnas Unedig ddarpariaeth ffôn symudol dan do gan y pedwar rhwydwaith symudol.

Ffigur 3: Darpariaeth llais a thestun (dan do ac yn yr awyr agored) ers Mehefin 2017



Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata cwmnïau, Mehefin 2017 – Ionawr 2019 (wedi ailddatgan ym mis Medi 2018)

Mae'r darlun yn amrywio rhwng cwmnïau a rhwng gwledydd. Mae'r ddarpariaeth yn y gwledydd unigol yn gallu amrywio o'r DU yn ei chyfanrwydd, yn enwedig rhai sydd â phoblogaethau tenau, ac mae hyn yn gallu effeithio ar lle mae cwmnïau sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth. Mae 91% o dirfas y DU yn cael mynediad i ddarpariaeth symudol 4G da wrth o leiaf un gweithredwr, tra bod 66% yn cael darpariaeth o'r pedwar gweithredwr symudol. O fewn hyn, mae darpariaeth unigol gweithredwyr yn amrywio, gyda'r uchaf yn 85% a'r isaf yn 76%.

3. Dangosfyrddau

Yn yr adran hon, mae'r ffigurau yn ymgorffori'r holl ffactorau a'r cywiriadau a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Darpariaeth symudol a band eang sefydlog – y DU

Gwasanaethau band eang sefydlog	Darpariaeth mewn eiddo yn y Deyrnas Unedig o:		
	Mai 2019	Ionawr 2019	Medi 2018
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 10Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny	98%	98%	98%
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 30Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny (cyflym iawn)	95%	95%	94%
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 300Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny (gwibgyswllt)	54%	53%	49%
Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn	8%	7%	6%
Methu cael mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 10Mbit yr eiliad a a chyflymder uwchlwytho sy'n 1Mbit yr eiliad (Isafswm y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol)	2%	2%	2%

Nodyn 1: Rydyn ni'n ystyried bod gan eiddo 'darpariaeth ffeibr llawn' dim ond os ydy 1. ffeibr wedi'i rhyddhau yn agos i'r eiddo, felly dim ond cysylltiad ffeibr penodol i'r eiddo sy'n angenrheidiol i darparu cysylltedd (pen wrth ben) ffeibr llawn a 2. byddai'r defnyddiwr terfynol yn disgwyl talu ffi cysylltu a gytunwyd rhag blaen, os oedd un yn cael ei orfodi. Mae'r nodyn hwn yn berthnasol i bob un o dablau'r cenhedloedd isod.

Nodyn: Gallai fod hyn yn eithrio gwasanaethau band eang sydd ar gael o ddarparwyr llai. Mae'r nodyn hwn yn berthnasol i'r holl dablau Cenhedloedd isod.

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yn y DU o:		
	Mai 2019	Ionawr 2019	Medi 2018
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	77%	77%	77%
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	66%	66%	66%
Ardal ddaearyddol sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	9%	9%	9%
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	56%	55%	56%
Ffyrdd A a B sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	5%	5%	5%
Gwasanaethau galwadau ffôn (2G, 3G a 4G)			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	92%	92%	93%
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	79%	78%	78%
Ardal ddaearyddol sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	5%	5%	5%
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	76%	76%	76%
Ffyrdd A a B sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	2%	2%	2%

Nodyn 1: Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105dBm). Mae hyn yn berthnasol i'r holl gysylltiadau sy'n gallu cyflawni cyflymder cysylltu sydd o leiaf 2Mbit/yr eiliad a galwadau llais dibynadwy. Mae'r nodyn hwn yn berthnasol i holl dablau unigol y Cenhedloedd isod.

Nodyn 2: Mae'r ffigurau ar gyfer y ddarpariaeth dan do yn yr adroddiad hwn yn ystyried effeithiau waliau, drysau, toeau ac ati a fydd yn lleihau neu'n rhwystro signalau symudol wrth iddynt symud trwyddynt. Rydym wedi tybio bod adeiladau'n rhwystro signalau symudol yn yr un ffordd (drwy leihau cryfder y signal 10dB). Mae'r nodyn hwn yn berthnasol i holl dablau unigol y Cenhedloedd isod.

Mewn gwirionedd, bydd rhai adeiladau'n rhwystro signalau yn fwy nag eraill a byddwn yn ystyried hyn mewn diweddariadau dilynol. Mae'r nodyn hwn yn berthnasol i holl dablau unigol y Cenhedloedd isod.

Nodyn 3: Dyma'r trothwyon ar gyfer llais a thestun: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm). Mae'r nodyn hwn yn berthnasol i holl dablau unigol y Cenhedloedd isod.

Darpariaeth symudol a band eang sefydlog – Lloegr

Gwasanaethau band eang sefydlog	Darpariaeth mewn eiddo yn Lloegr o fis:		
	Mai 2019	Ionawr 2019	Medi 2018
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 10Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny	99%	99%	98%
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 30Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny (cyflym iawn)	95%	95%	94%
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 300Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny (gwibgyswllt)	56%	56%	52%
Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn	8%	7%	6%
Methu cael mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 10Mbit yr eiliad a chyflymder uwchlwytho sy'n 1Mbit yr eiliad (Isafswm y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol)	2%	2%	2%

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yn Lloegr o :		
	Mai 2019	Ionawr 2019	Medi 2018
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	78%	78%	78%
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	82%	81%	82%
Ardal ddaearyddol sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	2%	2%	2%
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	62%	62%	63%
Ffyrdd A a B sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	2%	3%	2%
Gwasanaethau galwadau ffôn (2G, 3G a 4G)			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	93%	93%	93%
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	91%	91%	91%
Ardal ddaearyddol sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	1%	1%	1%
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	83%	82%	83%
Ffyrdd A a B sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	1%	1%	1%

Darpariaeth symudol a band eang sefydlog – Gogledd Iwerddon

Gwasanaethau band eang sefydlog	Darpariaeth mewn eiddo yng Ngogledd Iwerddon o fis		
	Mai 2019	Ionawr 2019	Medi 2018
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 10Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny	95%	95%	95%
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 30Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny (cyflym iawn)	90%	90%	89%
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 300Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny (gwibgyswllt)	48%	45%	38%
Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn	25%	16%	12%
Methu cael mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 10Mbit yr eiliad a chyflymder uwchlwytho sy'n 1Mbit yr eiliad (Isafswm y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol)	5%	5%	5%

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yng Ngogledd Iwerddon o:		
	Mai 2019	Ionawr 2019	Medi 2018
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	58%	59%	57%
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	78%	78%	79%
Ardal ddaearyddol sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	3%	3%	2%
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	47%	47%	48%
Ffyrdd A a B sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	6%	6%	6%
Gwasanaethau galwadau ffôn (2G, 3G a 4G)			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	79%	79%	80%
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	87%	87%	88%
Ardal ddaearyddol sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	1%	1%	1%
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	66%	66%	67%
Ffyrdd A a B sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	3%	3%	3%

Darpariaeth symudol a band eang sefydlog – Yr Alban

Gwasanaethau band eang sefydlog	Darpariaeth mewn eiddo yn yr Alban o fis:		
	Mai 2019	Ionawr 2019	Medi 2018
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 10Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny	97%	97%	96%
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 30Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny (cyflym iawn)	93%	93%	92%
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 300Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny (gwibgyswllt)	46%	45%	44%
Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn	6%	5%	4%
Methu cael mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 10Mbit yr eiliad a chyflymder uwchlwytho sy'n 1Mbit yr eiliad (Isafswm y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol)	4%	4%	4%

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yn yr Alban o:		
	Mai 2019	Ionawr 2019	Medi 2018
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	76%	75%	75%
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	41%	40%	39%
Ardal ddaearyddol sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	20%	21%	22%
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	43%	42%	41%
Ffyrdd A a B sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	10%	10%	11%
Gwasanaethau galwadau ffôn (2G, 3G a 4G)			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	91%	91%	91%
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	56%	56%	54%
Ardal ddaearyddol sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	12%	13%	13%
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	61%	60%	60%
Ffyrdd A a B sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	5%	5%	6%

Darpariaeth symudol a band eang sefydlog – Cymru

Gwasanaethau band eang sefydlog	Darpariaeth mewn eiddo yng Nghymru o fis:		
	Mai 2019	Ionawr 2019	Medi 2018
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 10Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny	97%	97%	97%
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 30Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny (cyflym iawn)	93%	93%	93%
Mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 300Mbit yr eiliad neu'n uwch na hynny (gwibgyswllt)	31%	31%	29%
Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn	10%	7%	7%
Methu cael mynediad at gyflymder lawrlwytho sy'n 10Mbit yr eiliad a chyflymder uwchlwytho sy'n 1Mbit yr eiliad (Isafswm y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol)	3%	3%	3%

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yng Nghymru o:		
	Mai 2019	Ionawr 2019	Medi 2018
Gwasanaethau 4G			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	70%	70%	69%
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	58%	57%	57%
Ardal ddaearyddol sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	10%	10%	10%
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	45%	45%	44%
Ffyrdd A a B sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	9%	9%	9%
Gwasanaethau galwadau ffôn (2G, 3G a 4G)			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	88%	88%	88%
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	76%	76%	75%
Ardal ddaearyddol sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	4%	5%	5%
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	69%	69%	69%
Ffyrdd A a B sydd <i>ddim</i> yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	5%	5%	5%

4. Gwasanaethau data 3G cenhedlaeth hŷn – dangosfyrddau

Mae modd gweld y data, sy'n caniatáu cymharu'n hanesyddol ag adroddiadau blaenorol ar Gysylltu'r Gwledydd, yn nangosfwrdd cysylltiedig Cysylltu'r Gwledydd yn hytrach nag mewn tabl yn y fan yma.